**Cyfeirnod:** 4530A2024

**Dyddiad cyhoeddi:** Hydref 2024

# Archwiliad o Gynllun Gwella 2024-25 Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Mae Rhif Cylchlythyr Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru: W-FRSC(2021)07 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru barhau i adrodd yn erbyn Mesur Llywodraeth Leol 2009 nes bod Fframwaith Cenedlaethol newydd a threfniadau diwygiedig wedi'u cyflwyno.

## Tystysgrif

Rwy'n tystio, yn dilyn cyhoeddiad ym mis Gorffennaf 2024, fy mod wedi archwilio Cynllun Gwella Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, credaf fod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(6) i (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod Gyfrifoldebau'r Awdurdod a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n disgrifio ei gynlluniau i gyflawni'r dyletswyddau canlynol:

- gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer ei swyddogaethau;
- gwneud trefniadau i sicrhau bod ei amcanion gwella yn cael eu cyflawni; a
- gwneud trefniadau i arfer ei swyddogaethau fel bod unrhyw safon perfformiad a bennir gan Weinidogion Cymru yn cael ei bodloni.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi, neu ar ôl unrhyw ddyddiad arall a bennir gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn.

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Gwella ac am y wybodaeth a nodir ynddo. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod roi sylw i ganllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Fel archwilydd yr Awdurdod, mae'n ofynnol i mi o dan adrannau 17 a 19 o'r Mesur gynnal archwiliad o'r Cynllun Gwella, ardystio fy mod wedi gwneud hynny, ac adrodd a wyf yn credu bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau i baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella yn unol â'r gofynion statudol a nodir yn adran 15 a chanllawiau statudol.

## Cwmpas archwiliad y Cynllun Gwella

At ddibenion fy ngwaith archwilio, byddaf yn derbyn, ar yr amod bod awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, y bydd hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn, nid yw'n ofynnol i mi lunio barn ar gyflawnrwydd neu gywirdeb gwybodaeth, nac a ellir cyflawni'r Cynllun Gwella a gyhoeddir gan yr Awdurdod. Roedd fy archwiliad o Gynllun Gwella'r Awdurdod, felly, yn cynnwys adolygiad o'r cynllun i ganfod a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodir mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r cynllun yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth, a bod yr Awdurdod wedi rhoi sylw i ganllawiau statudol wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Ni ellir dibynnu'n unig ar y gwaith rwyf wedi'i wneud er mwyn adrodd a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 a 19 o'r Mesur i nodi'r holl wendidau neu gyfleoedd i wella.



**Adrian Crompton**

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

CC: Jayne Bryant – Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol

Carwyn Rees – Rheolwr Archwilio